Safon UG a Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau

Cyflwyniad

Mae cyrsiau Safon Uwch Gyfrannol a Safon Uwch mewn Astudio'r Cyfryngau yn cael eu diwygio yng Nghymru i'w cyflwyno am y tro cyntaf ym mis Medi 2017. Bydd y cyrsiau Safon Uwch diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau yn cael eu llunio a'u cyflwyno gan CBAC, a dyma fydd yr unig fersiynau o'r cymwysterau fydd ar gael i ddysgwyr sy'n dilyn rhaglenni wedi'u hariannu'n gyhoeddus yng Nghymru, gan nad oes unrhyw fwrdd arholi arall wedi penderfynu datblygu'r cymwysterau hyn i'w defnyddio yng Nghymru. Fel rhan o'r broses ddiwygio, rydym yn gofyn am eich barn am gynnwys, strwythur ac asesiad arfaethedig y cymhwyster diwygiedig.

Rydym wedi datblygu'r cynigion yn yr holiadur hwn trwy ymgynghori â nifer o randdeiliaid, gan gynnwys CBAC, ymarferwyr mewn ysgolion a cholegau, prifysgolion a Llywodraeth Cymru. Bydd deilliannau'r holiadur hwn yn helpu i lywio datblygiad y meini prawf cymeradwyo a'r amodau rheoleiddiol ar gyfer Safon Uwch Gyfrannol a Safon Uwch newydd mewn Astudio'r Cyfryngau. Bydd y manylebau a'r deunyddiau asesu enghreifftiol ar gyfer y cymwysterau hyn yn cael eu datblygu a'u cymeradwyo ar sail y meini prawf cymeradwyo a gyhoeddir gan Cymwysterau Cymru.

Safon UG a Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau

Nodau a chynnwys pwnc

Gellir gweld nodau a chynnwys pwnc Safon Uwch presennol Astudio'r Cyfryngau trwy ddilyn y ddolen isod:
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/371171/11-10-18-gce-media-studies.pdf

Mae Safon Uwch mewn Astudio'r Cyfryngau yn cael ei diwygio yn Lloegr hefyd. Gellir gweld nodau pwnc a gofynion cynnwys y Safon Uwch diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau yn Lloegr trwy ddilyn y ddolen isod.
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/459569/2017-GCE-Media-studies-subject-content.pdf

Nodau ac amcanion pwnc

Dyma nodau ac amcanion presennol y pwnc:

Dylai manylebau Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol mewn Astudio'r Cyfryngau annog dysgwyr i:

- wella'u mwynhad a'u gwerthfawrogiad o'r cyfryngau a'u rôl yn eu bywyd bob dydd;
- datblygu dealltwriaeth feirniadol o'r cyfryngau trwy ymgysylltu â chysyniadau a chynhyrchion y cyfryngau a thrwy gymhwyso sgiliau ymarferol yn greadigol;
- archwilio prosesau cynhyrchu, technolegau a chyd-destunau perthnasol eraill;
- datblygu annibyniaeth o ran sgiliau ymchwil a'u defnydd, yn eu gwaith ymarferol ac wrth ddatblygu eu barn a'u dehongliadau eu hunain.

Ar gyfer y cymwysterau Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru, cynigiwn y dylid cadw nodau presennol y pwnc ac ychwanegu'r amcanion canlynol:
Mae'n ofynnol i ddysgwyr:

- ddadansoddi cynhyrchion y cyfryngau;
- gwerthuso'u gwaith eu hunain;
- gwerthuso damcaniaethau academaidd.

Mynegodd rhanddeiliaid fod yr amcanion ychwanegol hyn yn briodol i'r cymhwyster gan eu bod yn ymgorffori sgiliau uwch o ran llunio barnau a dod i gasgliadau.

C12: I ba raddau yr ydych chi'n cytuno/anghytuno â'r nodau pwnc arfaethedig ar gyfer y Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol newydd mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru?

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

Cynnwys pwnc

Cynigiwn y dylai cynnwys y pwnc presennol gael ei ddefnyddio ar gyfer y Safon Uwch ddiwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru ynghyd â damcaniaethau, damcaniaethwyr, ffurfiau'r cyfryngau, cynhyrchion gosod a safbwynt Cymreig lle y bo'n briodol. Gosodwn isod ein cynigion ar gyfer sut i gyflawni hyn.

Damcaniaethau a damcaniaethwyr

Cynigiwn fod angen cynnwys damcaniaethau a damcaniaethwyr o fewn cynnwys y pwnc ar gyfer y Safon Uwch ddiwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau; fodd bynnag, ni ddylid pennu pa ddamcaniaethwr i'w astudio ochr yn ochr â phob damcaniaeth ond dylid ei gynnwys fel awgrym. Bydd hyn yn caniatáu i'r ymarferwr addysg ddewis yr enghreifftiau mwyaf priodol i'w defnyddio.

C13a: I ba raddau yr ydych chi'n cytuno/anghytuno y dylai cynnwys y pwnc Safon Uwch mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru gynnwys damcaniaethau penodedig?

- ○ Cytuno'n gryf
- ○ Cytuno
- ○ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ○ Anghytuno
- ○ Anghytuno'n gryf
- ○ Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

C13b: I ba raddau yr ydych chi'n cytuno/anghytuno na ddylai cynnwys y pwnc Safon Uwch mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru gynnwys damcaniaethwyr penodedig ar gyfer pob damcaniaeth ac y dylid eu cynnwys fel awgrym?

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

Ffurfiau'r cyfryngau

Mae'r cynnwys sydd wedi'i bennu ar gyfer pwnc y Safon Uwch newydd mewn Astudio'r Cyfryngau yn Lloegr yn pennu bod yn rhaid i ddysgwyr astudio enghreifftiau o holl ffurfiau canlynol y cyfryngau:

- teledu;
- ffilm;
- radio;
- papurau newyddion;
- cylchgronau;
- hysbysebu a marchnata;
- cyfryngau ar-lein, cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau cyfranogol;
- gemau fideo;
- fideos cerddoriaeth.

Mae ein hymgynghoriad cychwynnol â rhanddeiliaid yn awgrymu y dylai'r Safon Uwch newydd mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru hefyd ei gwneud hi'n ofynnol i ddysgwyr astudio'r holl ffurfiau hyn ar y cyfryngau. Yn ogystal, awgrymodd rhanddeiliaid y dylid cynnwys ystyriaeth o'r safbwynt Cymreig wrth astudio'r ffurfiau hyn ar y cyfryngau, fel y bo'n briodol.

Felly, cynigiwn y dylai'r fanyleb newydd ar gyfer Safon Uwch mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru ei gwneud hi'n ofynnol i bob dysgwyr ddysgu'r holl ffurfiau uchod ar y cyfryngau a, lle y bo'n briodol, dylid cynnwys safbwynt Cymreig yn yr astudio.

C14a: I ba raddau yr ydych chi'n cytuno/anghytuno y dylid ei gwneud hi'n ofynnol i ddysgwyr astudio'r holl ffurfiau arfaethedig uchod ar y cyfryngau yn eu hastudiaethau?

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

C14b: I ba raddau yr ydych chi'n cytuno/anghytuno y dylai'r ffurfiau ar y cyfryngau gynnwys safbwynt Cymreig lle y bo'n briodol?

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

Cynhyrchion y cyfryngau

Nodwedd newydd a gyflwynwyd gan ofynion y DfE ar gyfer Lloegr yw y dylai pob dysgwr astudio o leiaf un ffurf sain/gweledol, un ffurf print ac un ffurf ar-lein ar y cyfryngau yn fanwl, a gwneud hyn trwy gyflawni astudiaeth fanwl o gynhyrchion cyferbyniol y cyfryngau, wedi'u gosod gan y corff dyfarnu. Awgrymodd rhanddeiliaid yng Nghymru fod y cynnig hwn yn gwella dyfnder ac ehangder astudio.

Cynigiwn y dylai'r Safon Uwch diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru ei gwneud hi'n ofynnol i ddysgwyr astudio o leiaf un ffurf sain/gweledol, un ffurf print ac un ffurf ar-lein ar y cyfryngau yn fanwl trwy gyferbynnu cynhyrchion y cyfryngau sy'n cael eu gosod gan y corff dyfarnu. Rhaid darparu dewis o gynhyrchion y cyfryngau i ddysgwyr eu hastudio. Wrth gyflwyno'i fanyleb ar gyfer ei chymeradwyo, rhaid i'r corff dyfarnu esbonio sut a pham y mae wedi dewis cynhyrchion y cyfryngau sydd wedi'u cynnwys yn ei fanyleb.

C15a: I ba raddau yr ydych chi'n cytuno/anghytuno y dylai cynnwys y pwnc Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru gynnwys cynhyrchion gosod ac astudio o leiaf un ffurf sain/gweledol, un ffurf print ac un ffurf ar-lein ar y cyfryngau yn fanwl?

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

Hefyd, cynigiwn y dylai cynhyrchion y cyfryngau y mae'r corff dyfarnu yn eu gosod i'w hastudio, o'u hystyried ar y cyd, gynnig digon o sylwedd, arwyddocâd ac amrywiaeth i ganiatáu cyfleoedd am ddehongli, dadansoddi ac archwilio cysyniadau'r cyfryngau a damcaniaethau'r cyfryngau sy'n cael eu hastudio fel rhan o'r cwrs. Yn gyffredinol, cynigiwn fod yn rhaid i gynhyrchion y cyfryngau sy'n cael eu gosod i'w hastudio gynnwys amrywiaeth o strwythurau, ffurfiau, cyfnodau hanesyddol a chynulleidfaoedd bwriadedig; rhaid iddynt hefyd gynnwys o leiaf un cynnyrch cyfrwng Cymraeg, un cynnyrch cyfrwng Saesneg ac un cynnyrch nad yw'n gynnyrch cyfrwng Cymraeg na Saesneg.

C15b: I ba raddau yr ydych chi'n cytuno/anghytuno y dylai Safon Uwch mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru gynnwys y gofyniad bod cynhyrchion y cyfryngau yn cynnwys amrywiaeth o strwythurau, ffurfiau, cyfnodau hanesyddol a chynulleidfaoedd bwriadedig?

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

C15c: I ba raddau yr ydych chi'n cytuno/anghytuno y dylai Safon Uwch mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru gynnwys y gofyniad bod o leiaf un cynnyrch cyfrwng Cymraeg, un cynnyrch cyfrwng Saesneg ac un cynnyrch nad yw'n gynnyrch cyfrwng Cymraeg na Saesneg yn cael eu hastudio?

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

Amcanion asesu

Mae amcanion asesu yn amlinellu sut y dylid asesu cynnwys y pwnc.

Dyma'r amcanion asesu a'u pwysoliadau yn y Safon Uwch presennol mewn Astudio'r Cyfryngau:

	Amcan asesu	Pwysoliad
AA1	Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau'r cyfryngau, cyd-destunau a thrafodaethau beirniadol	30-40%
AA2	Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth wrth ddadansoddi cynhyrchion a phrosesau'r cyfryngau a gwerthuso'u gwaith ymarferol eu hunain, i ddangos sut mae ystyron ac ymatebion yn cael eu creu	30-40%
AA3	Dangos y gallu i gynllunio ac adeiladu cynhyrchion y cyfryngau gan ddefnyddio sgiliau creadigol a thechnegol priodol	20-30%
AA4	Dangos y gallu i ymgymryd ag ymchwil priodol, ei gymhwyso a'i gyflwyno	10-15%

Mae'r amcanion asesu a'r pwysoliadau canlynol yn cael eu cynnig ar gyfer y Safon Uwch ddiwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau yn Lloegr:

	Amcan asesu	Pwysoliad
AA1	Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o: • fframwaith damcaniaethol y cyfryngau • cyd-destunau cyfryngau a'u dylanwad ar gynhyrchion a phrosesau'r cyfryngau	25-35%
AA2 (Uwch Gyfrannol)	Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o fframwaith damcaniaethol y cyfryngau: • i ddadansoddi cynhyrchion y cyfryngau, gan gynnwys mewn perthynas â'u cyd-destunau a thrwy ddefnyddio damcaniaethau academaidd • i lunio barnau a dod i gasgliadau	35-45%
AA2 (Safon Uwch)	Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o fframwaith damcaniaethol y cyfryngau: • i ddadansoddi cynhyrchion y cyfryngau, gan gynnwys mewn perthynas â'u cyd-destunau a thrwy ddefnyddio damcaniaethau academaidd • i werthuso damcaniaethau academaidd • i lunio barnau a dod i gasgliadau	35-45%
AA3	Creu cynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa fwriadedig, trwy gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o fframwaith damcaniaethol y cyfryngau i gyfleu ystyr	30%

Ar gyfer y Safon Uwch ddiwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru, cynigiwn ddefnyddio'r un amcanion asesu a phwysoliadau â'r rhai sy'n cael eu cynnig ar gyfer y Safon Uwch ddiwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau yn Lloegr. Mae disgwyl i'r corff dyfarnu sicrhau bod y cynnwys manwl sy'n cael ei amlinellu ar gyfer Safon Uwch yn gydnaws â'r amcanion asesu a'i fod yn sicrhau'r dilyniant priodol rhwng pob lefel astudio.

Cynigiwn yr amcanion asesu a'r pwysoliadau canlynol ar gyfer y Safon Uwch ddiwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau:

	Amcan asesu	Pwysoliad
AA1	Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o: • gysyniadau damcaniaethol astudiaethau'r cyfryngau • cyd-destunau cyfryngau a'u dylanwad ar gynhyrchion a phrosesau'r cyfryngau	30%
AA2	Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o fframwaith cysyniadol astudiaethau'r cyfryngau: • i ddadansoddi cynhyrchion y cyfryngau, gan gynnwys mewn perthynas â'u cyd-destunau, gan ddefnyddio damcaniaethau academaidd • i werthuso eu gwaith ymarferol eu hunain	35%
AA3	Ymchwilio, datblygu a chreu cynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa fwriadedig, trwy gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o fframwaith cysyniadol astudiaethau'r cyfryngau i gyfleu ystyr	35%

C16: I ba raddau yr ydych chi'n cytuno/anghytuno â'r amcanion asesu a'r pwysoliadau arfaethedig ar gyfer Safon Uwch mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru?

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

Mae'r manylebau presennol ar gyfer Safon Uwch mewn Astudio'r Cyfryngau yn cynnwys asesiad nad yw'n arholiad (fe'i gelwir yn 'waith cwrs' ar hyn o bryd).

Pwysleisiodd y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw yng Nghymru bwysigrwydd datblygu sgiliau ymchwil annibynnol i gefnogi dilyniant i addysg uwch. Mynegont fod yr un galwadau yn perthyn i waith cynhyrchu ymarferol â'r hyn a oedd yn perthyn i astudio academaidd a'i fod eto o bwysigrwydd hanfodol o ran dilyniant i addysg uwch, lle y mae mwyafrif y cyrsiau yn cynnwys elfen ymarferol, neu i waith lle y byddai pwys mawr yn cael ei roi ar sgiliau ymarferol.

Ar hyn o bryd, mae'r pwysoliad rhwng asesiadau nad ydynt yn arholiadau ac arholiadau mewn Safon Uwch mewn Astudio'r Cyfryngau yn 40% a 60%, yn y drefn honno. Cynigiwn barhau â'r pwysoliad hwn ar gyfer asesiadau nad ydynt yn arholiadau ac arholiadau mewn Safon Uwch mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru.

C17: I ba raddau yr ydych chi'n cytuno/anghytuno â'r cynnig i gadw pwysoliadau yr asesiad nad yw'n arholiad ar gyfer Safon Uwch mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru?

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

Gofynion asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau

Mynegodd rhanddeiliaid yng Nghymru y dylai dysgwyr gael eu hasesu trwy ddull cydweithredol o gynhyrchu'r cyfryngau, sy'n adlewyrchu'r arferion presennol a ddefnyddir mewn Addysg Uwch ac yn y diwydiant cyfryngau byd-eang.

Hefyd, roedd rhanddeiliaid yn cefnogi cynnwys ymchwil a chynllunio, sy'n gysylltiedig â chynhyrchu, o fewn yr asesiad nad yw'n arholiad ar gyfer y TGAU diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru.

Cynigiwn y gofynion canlynol ar gyfer elfen yr asesiad nad yw'n arholiad o'r TGAU diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru:

Cymhwyster	Gofynion posibl ar gyfer Cymru
Safon Uwch Gyfrannol	Un cynhyrchiad y cyfryngau gydag asesiad o ymchwil, datblygu a myfyrio unigol, gan gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau damcaniaethol mewn astudiaethau'r cyfryngau. Bydd y corff dyfarnu yn gosod briffiau ac yn eu hadolygu bob blwyddyn.
Safon Uwch	Un cynhyrchiad traws-gyfryngol gydag asesiad o ymchwil, datblygu a myfyrio unigol, gan gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau damcaniaethol mewn astudiaethau'r cyfryngau a natur gydgyfeiriol ddigidol y cyfryngau cyfoes Bydd y corff dyfarnu yn gosod briffiau ac yn eu hadolygu bob blwyddyn.

Cynigiwn ymhellach y gall cynhyrchiad y cyfryngau gael ei gynhyrchu gan unigolyn neu grŵp o ddysgwyr. Lle y bo grŵp o ddysgwyr wedi cydweithio i greu cynhyrchiad y cyfryngau, bydd disgwyl i gyfraniad pob unigolyn gael ei amlygu.

C18a: I ba raddau yr ydych chi'n cytuno/anghytuno â'r gofynion arfaethedig ar gyfer yr asesiad nad yw'n arholiad ar gyfer Safon Uwch mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru?

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

C18b: I ba raddau yr ydych chi'n cytuno/anghytuno y gall cynhyrchiad y cyfryngau fod yn dasg unigol neu'n dasg grŵp ar gyfer Safon Uwch mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru?

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

C19: Yn eich barn chi, pa gymorth ac adnoddau y gallai fod eu hangen ar ganolfannau ac athrawon er mwyn bod yn gwbl barod i gyflwyno'r fanyleb ddiwygiedig?

Rhowch sylwadau

Effaith ar gydraddoldeb

Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010 rhaid i gyrff cyhoeddus roi 'sylw dyledus', wrth wneud penderfyniadau, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth mewn perthynas ag unigolion na grwpiau, er mwyn cyflawni cydraddoldeb a meithrin cydberthnasau da o ran nodweddion gwarchodedig (oedran, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hil, crefydd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth ac ailbennu rhywedd).

C20: O ystyried hyn, nodwch isod a allai unrhyw ran o'r cynnig hwn gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar unigolion â nodweddion gwarchodedig a ph'un a fyddai unrhyw ran o'r cynnig yn peri problemau o ran hygyrchedd i ddysgwyr yng Nghymru.

Safon UG a Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau

Manylion personol

Cyfranogwyr dan 16 oed - gofynnir i BEIDIO â llenwi'r adran hon.

Os ydych yn cyflenwi manylion cyswllt, efallai y byddwn yn cysylltu â chi am eglurhad am eich atebion. Ni fydd Cymwysterau Cymru (CC) yn rhannu'r manylion hyn, neu fanylion am eich atebion gydag unrhyw drydydd.

Manylion personol

Enw

Sefydliad

Cyferiad ebost

A ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran eich sefydliad?

- ◯ Unigolyn
- ◯ Sefydliad

Dewiswch y math o sefydliad neu dewiswch 'ddim yn berthnasol' os ydych yn ymateb fel unigolyn

- ◯ Ysgol
- ◯ Coleg
- ◯ Prifysgol
- ◯ Corff Dyfarnu Cymhwysterau
- ◯ Llywodraeth (Lleol, Cenedlaethol, DU neu'r UE)
- ◯ Ddim yn perthnasol
- ◯ Arall

A ydych yn: (dewiswch fel sy'n briodol)

- [ ] Athro
- [ ] Darlithydd Coleg
- [ ] Darlithydd y Brifysgol
- [ ] Myfyrwyr/ddisgybl
- [ ] Rhiant
- [ ] Arall